



Blodyn Llefrith

Cardamine Pratensis


Mae'r blodau'n fach ac yn cynnwys pedwar o betalau pinc neu borffor golau. Mae'n blanhigyn bwyd pwysig i lindys Glöyn Byw y Gwyn Blaen Oren.



Meillionen Wen

Trifolium repens



Mae'r blodau'n siâp pêl ar goesyn hir, a'r bêl wedi'i gwneud o flodau gwyn unigol bach iawn, ac weithiau blodau pinc golau iawn. Mae ganddyn nhw dair deilen gron gyda band gwelw.



Clust-y-llygoden Gulddail

Cerastium fontanum



Mae'r blodau'n fach iawn, yn wyn, ac mae ganddyn nhw bump o betalau. Mae'r coesynnau'n cario dail bach blewog mewn paruau, sy'n rhoi'r enw cyffredin i'r planhigyn, sef Clust-y-llygoden.



Blodyn Menyn Ymlusgol

Ranunculus repens


Mae ganddo flodau melyn a dail blewog wedi'u rhannu'n dair rhan. Mae rhedwyr gwreiddio hir yn ei helpu i ledaenu ar draws ardaloedd llaith o laswellt, yn wahanol i fathau eraill o Flodau Menyn.



Llygad y Dydd

Bellis perennis


Mae gan bob blodyn betalau gwyn, bach, tenau ac weithiau pinc o amgylch canol melyn llachar. Mae ganddo goesyn sy'n tyfu o grŵp o ddail crwn, gwyrdd tywyll.



Dant y Llew

Taraxacum officinale

Mae'r blodyn melyn llachar yma'n tyfu ar goesyn unigol gyda dail mawr, gwyrdd, danheddog. Os edrychych chi'n ofalus fe welwch chi flodau bach iawn o fewn prif ben y blodyn.



Does dim angen i ni fynd yn bell i wneud lle i fynd natur. Gall ein lawntiau a'n gofod gwyrdd ni fod yn deyrnasoedd lliwgar o blanhigion a bywyd gwylt i gyd yn cyd-fyw, yn llawn bywyd a photensial.

Lliwrich blanhigion blodeuo'r gwanwyn a'u ticio wrth eu gweld yn eich gardd neu eich gofod gwyrdd lleol.

Faint fyddwch chi'n eu gweld?
Rhowch wybod i ni ar gyfryngau cymdeithasol, defnyddiwch #MaiDiDor a thagio @plantlife.loveplants

Rhoi rhyddid i'ch lawnt.

Ymunwch â'r mudiad yn plantlife.org.uk/nomowmay